Datganiad i'r Wasg

Lansio 10fed Gŵyl Gerdded Ynys Môn ac agoriad swyddogol Lôn Las Cefni

Mi fydd 10fed Gŵyl Gerdded Ynys Môn yn cael ei lansio ym mhentref Malltraeth ddydd Sadwrn 23 Mai 2009 am 11.00 y bore gan y darlledwr enwog, Hywel Gwynfryn. Bydd y digwyddiad hefyd yn cynnwys agoriad swyddogol llwybr seiclo Lôn Las Cefni.

Yn dilyn y lansiad swyddogol ger y *Joiner's Arms* ym Malltraeth, am 1.00 y prynhawn, bydd modd cymryd rhan mewn teithiau cerdded elusennol sydd yn 2, 4 neu 10 milltir o hyd.

Mae'r daith 2 filltir yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a choetsis, felly maen nhw'n addas i bob oed, a bydd yn cychwyn ym maes Parcio'r Comisiwn Coedwigaeth oddi ar yr A4080 ar ben y Cob, i'r gogledd orllewin o Niwbwrch. Bydd y teithiau cerdded 4 a 10 milltir yn cychwyn ar ochr Malltraeth o'r cob. Bydd y ddwy daith yn dychwelyd i'r man cychwyn, a byddant yn dilyn y llwybr ar draws y cob a thrwy'r goedwig. Mae'r daith hiraf yn parhau drwy'r twyni tywod, ac ymlaen i ynys Llanddwyn, sydd wrth gwrs yn adnabyddus am ei swyn rhamantus.

Hefyd am 1.00 o'r gloch, bydd taith seiclo elusennol yn cychwyn o gae pêl-droed Malltraeth i gyfeiriad ardal Llangefni ar hyd y llwybr beicio newydd.
Mae Lôn Las Cefni yn llwybr cyhoeddus, 13 milltir o hyd, sy'n cysylltu Niwbwrch a Malltraeth gyda Llangefni, Bodffordd a Rhosmeirch. Ar hyd y ffordd, sy'n pasio drwy goedwig Niwbwrch, gall beicwyr weld golygfeydd trawiadol o'r cob ar draws aber Malltraeth, gan ddilyn aber yr afon Cefni drwy 'Gors Ddyga' a Llangefni at gronfa ddŵr Cefni, a phentrefi Bodffordd a Rhosmeirch.

Mae'r llwybr beiciau newydd yn galluogi beicwyr i fwynhau rhywfaint o'r golygfeydd prydferthaf yng Nghymru. Mae hyn, ynghyd â'r llwybr cerdded sydd eisoes wedi ennill ei blwyf, yn ychwanegu at atyniad Ynys Môn i dwristiaid.

Cyllidwyd y gwaith o greu'r llwybr beiciau gan: Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Menter Môn, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn, Cwmni Gwastraff Môn, Dŵr Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Adfywio.

Y brif elusen sy'n gysylltiedig â'r teithiau cerdded a seiclo elusennol yw Cymdeithas Alzheimer, ond mae croeso i'r cyhoedd godi arian at unrhyw elusen o'u dewis. Os hoffech fod yn ran o'r digwyddiad yma, cysylltwch ar trefnwyr Menter Môn ar gyfer cofrestru ar 01248 725 718 neu rhian@mentermon.com

Mi fydd yr Ŵyl yn parhau tan ddydd Sul 7 Mehefin, ac am fwy o fanylion ynglŷn â'r Ŵyl, ymwelwch â : www.angleseywalkingfestival.com